# Cenn@d

MAI 29 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 170


## Gweddarlledu cynhadledd Gristnogol o Gymru i Ewrop

Bob tair blynedd bydd rhwydwaith trefnyddion gwaith plant eglwysig o bob rhan o Ewrop yn cyfarfod â'i gilydd mewn cynhadledd (sef ECCE: European Conference on Christian Education) rywle yn Ewrop. Y llynedd cynhaliwyd y gynhadledd honno yn Hwngari. Bydd y gynhadledd nesaf yng Ngenefa yn 2026, ac yn ddiweddar bûm allan yn y wlad yn dechrau ar y broses o drefnu, gan sicrhau lleoliad, thema ayyb. Gan fod tair blynedd yn gyfnod hir heb inni weld ein gilydd, penderfynwyd y byddem yn cyfarfod yn rhithiol rhwng y cyfarfodydd hynny, gan gynnal digwyddiad blynyddol ar Zoom. Eisoes cynhaliwyd dau o'r rheini, a chafwyd cwmni Lucy Moore o Llan Llanast yn y digwyddiad cyntaf, a Bob Hartman o Agor y Llyfr yn yr un dilynol. Maent wedi bod yn ddigwyddiadau llwyddiannus iawn, gan ddod â dros 100 o weithwyr ledled Ewrop at ei gilydd. Felly, yn ystod ein hamser yng Ngenefa, fe wnaethon ni drefnu a chynnal digwyddiad rhithiol oddi yno, a braf oedd croesawu pobl o 14 gwlad wahanol atom i'r cyfarfod.

### Sgwrs o Bort Talbot

Ein siaradwraig wadd eleni oedd Judy Harris o Bort Talbot, ac oddi yno yr ymunodd hi â ni i gyflwyno'i sgwrs. Albanes yw Judy o ran ei magwraeth, ac fe'i hordeiniwyd yn ddiacon gydag Eglwys yr Alban. Ond mae hi wedi byw a gweithio yng Nghymru ers dros 25 mlynedd bellach. Mae Judy yn gweithio i'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig fel trefnydd cenedlaethol gwaith plant ac ieuenctid yng Nghymru. Mae'n credu'n gryf ym mhwysigrwydd chwarae – a hynny ar gyfer pob oed. Fe wnaeth hi arwain sesiwn ar ein cyfer o dan y teitl 'Let us Play', gan ein cyflwyno i'r cyfleoedd chwarae o fewn ein gwaith eglwysig.

### Chwarae a Chredu

Yn ddiweddar cyhoeddwyd Chwarae a Chredu yn Gymraeg, sef addasiad o waith Jerome Berryman, Godly Play. Diddorol oedd deall bod y cynllun hwnnw wedi ei gyfieithu i nifer o ieithoedd ar draws Ewrop, a gwelsom gopïau yn Ffrangeg ac Almaeneg tra oeddem yng Ngenefa.



Er bod yna amrywiaethau mawr rhyngom fel gwledydd ac enwadau, mae'n ddiddorol gweld sut mae cynlluniau fel Llan Llanast, Chwarae a Chredu, Agor y Llyfr ayyb yn dwyn bendith ar hyd a lled Ewrop. Diolch am bob cyfle a gawn i rannu a chyflwyno syniadau newydd, a gobeithio bydd mwy i'w rannu wrth inni ymgynnull yng Ngenefa ymhen dwy flynedd.

*Aled Davies,*
*Cyngor yr Ysgolion Sul*





Celf a chenhadaeth yn yr Wyddgrug
**Tudalen 2**

Diolch dau am gael gwasanaethu am 60 mlynedd
**Tudalen 4**

Ymddiriedolaeth Trussell yn cyhoeddi ei faniffesto ei hun ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2024
**Tudalen 7**

# Celf a chenhadaeth yn yr Wyddgrug

## Arddangosfa Merched y Beibl – Trefnydd: Lois Adams

## Capel Bethesda, Yr Wyddgrug, 2–7 Mai 2024



Wrth fynd ati i drefnu gweithgaredd Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd yng nghapel Bethesda ar 2 Mai 2024, cawsom gyfle i wahodd Lois Adams i ddod â'i harddangosfa 'Merched y Beibl' i'r Wyddgrug. Artist cymunedol a chenhadwraig greadigol sy'n gweithio dan nawdd Cwmpawd: Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd ydy Lois. Arddangosfa o beintiadau gwreiddiol gan artistiaid amrywiol o bob oed a phrofiad artistig yw'r arddangosfa yma. Yr hyn sy'n eu huno yw fod pob artist wedi dewis un o'r merched sy'n cael eu portreadu yn y Beibl ac wedi creu darn o waith yn seiliedig ar y cymeriad. Mae'r dulliau creadigol yn amrywio o 2D i 3D i waith technoleg, a'r portreadau o'r darluniol i'r symbolaidd.

Lansiwyd yr arddangosfa yn ystod Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd ar 2 Mai. Fel rhan o'r Dathliad cynhaliwyd dau gyfarfod, yn y prynhawn a'r hwyr. Cyflwynodd Lois yr arddangosfa i'r gynulleidfa yn ystod cyfarfod y prynhawn ac roedd cyfle i bawb gael pori drwyddi rhwng y ddau gyfarfod, gyda Lois wrth law i egluro a thrafod y darluniau.

Fore Gwener, 3 Mai, daeth grŵp gweddi o blith eglwysi tref yr Wyddgrug i ymweld â'r arddangosfa a chynnal cyfarfod gweddi yn y capel. Roedd ganddynt lawer o ddiddordeb yn yr arddangosfa, a chafwyd sgyrsiau difyr iawn am rai o'r cymeriadau a'r ffyrdd yr oeddent yn cael eu portreadu. Yn y prynhawn gwahoddwyd Blwyddyn 5 Ysgol Glanrafon i ymweld â'r arddangosfa a chael cyflwyniad i rai o'r portreadau cyn cychwyn ar weithdy celf. Cyflwynodd Lois wybodaeth iddynt am dair o ferched o'r Beibl a'u gwahodd i greu darn o waith yn seiliedig ar un o'r cymeriadau. Roedd eu gwaith yn lliwgar a chreadigol, a chafodd ei roi ar fyrddau arddangos yn y sêt fawr i bawb eu gweld fel rhan o'r arddangosfa. Gyda'r nos cynhaliwyd noson hwyliog i rieni ifanc gydag amrywiaeth o fwydydd blasus ar ddechrau'r noson. Cyflwynwyd yr arddangosfa iddynt gan Lois ac wedi treulio amser yn astudio'r gwaith eglurodd rhai o'r rhieni pa waith oedd wedi gwneud argraff arnyn nhw a pham. Cawsom sgyrsiau diddorol yn codi o hyn. Yn y festri wedyn roedd cyfle i'r rhieni fynd ati eu hunain i greu darn o waith.

Fel ffordd o wahodd aelodau o'r cyhoedd i mewn i weld yr arddangosfa fe drefnwyd bore coffi ar y Sadwrn. Daeth nifer dda o bobl drwy'r drysau – rhai'n aelodau o gynulleidfa'r capel, rhai o gapeli eraill yn yr ardal a nifer o bobl oedd wedi troi i mewn ar ddiwrnod marchnad am eu bod wedi cael gwahoddiad, neu am eu bod yn hoffi'r syniad o baned am ddim! Profodd yn ffordd dda o estyn allan at bobl newydd.

Bore Sul, 5 Mai, cynhaliwyd gwasanaeth i'r teulu yn y capel a chyflwynodd Lois sioe bypedau cysgod am y wraig oedd wedi dioddef o waedlif am 12 mlynedd ac adferiad merch Jairus. Bore hwyl i deuluoedd oedd ar y gweill fore Llun, 6 Mai – bore hwyliog o weithgaredd i deuluoedd a chyswllt efo'r eglwys a'r gwaith i'r ifanc ar ddydd Llun Gŵyl y Banc. Roedd amrywiaeth o ddanteithion ar gael i'r plant a'u rhieni, a chyflwynodd Lois sioe bypedau cysgod yn adrodd dameg y ddwy sylfaen, hanes y wraig oedd wedi dioddef o waedlif am 12 mlynedd ac adferiad merch Jairus. Roedd cyfle wedyn i'r plant greu pyped cysgod eu hunain, a bu llawer o hwyl wrth fynd ati.

Yn ystod dydd Mawrth, 7 Mai, gwahoddwyd 60 o ddisgyblion o Flynyddoedd 7 ac 8 Ysgol Maes Garmon i weld yr arddangosfa, a chafwyd cwestiynau treiddgar gan ambell ddisgybl yn ystod y sesiynau gwerthfawrogi i'r gwaith celf. Roedd amrywiaeth o ymatebion i'r celf – rhai'n cael ambell ddarn yn eithaf doniol, a braf oedd eu clywed yn holi am hanesion y merched a bortreadwyd. Cynhaliwyd gweithdai ar ôl y cyflwyniadau ac eto cafodd yr unigolion gyfle i greu darn o gelf yn seiliedig ar un o ferched y Beibl. Wrth sgwrsio â'r disgyblion yn ystod y sesiwn creadigol, roedd yn amlwg fod ambell un yn rhoi cryn ystyriaeth i'r testun wrth greu, a gwych oedd gweld hynny.



Roeddem yn ddiolchgar iawn o allu cyflwyno ymweliad arddangosfa 'Merched y Beibl' fel rheswm a chyfle i amrywiaeth o blant a phobl i ymweld â'r capel, nifer ohonynt erioed wedi bod yn yr adeilad o'r blaen. Y caffaeliad mwyaf i'r wythnos yn ddi-os oedd Lois ei hun – ei ffordd agored, hwyliog o siarad efo pawb a'i hawydd i gyflwyno ac arddel ei ffydd ym mhopeth mae'n ei wneud. Amcangyfrifir fod oddeutu 400 wedi dod i weld yr arddangosfa yn ystod ei chyfnod yn y capel. Diolchwn am bob un ohonynt, gan weddïo y bydd ffrwyth i'r hadau a blannwyd.

*Gwenith Jones*
*Yr Wyddgrug*

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

*Celf a chenhadaeth yn yr Wyddgrug*
*(parhad o dudalen 2)*

Roedd cerddi wedi eu cyflwyno hefyd i gyd-fynd â rhai o'r darluniau. Dyma un yn sôn am y wraig honno ddioddefodd o waedlif am 12 mlynedd (Marc 5:21–34):



Coch yw'r lliw.
Gwaed ydyw.
Ac mae'n dod ohoni hi.
Deuddeng mlynedd hir o wendid, poen, ynysu.
Pobl yn edrych arni,
Pennau'n ysgwyd arni hi,
Tyrfaoedd yn gwahanu iddi hi,
Bywyd o symud o hyd,
O obeithio yn y lle nesaf na fydd:
Dy enw,
Dy hanes, yn dy ddilyn yno.
Ond coch yw'r lliw.
Gwaed ydyw.
Ac mae'n ei dilyn.
Pob meddyg, pob un sy'n iacháu
Yn methu ei hiacháu hi.
Tegwch, caredigrwydd, cyfiawnder?
Does dim iddi hi.
Ac mae'r coch
Yn para'n goch.
Ac mae'r gwaed yn para'n waed.

Nes un dydd
Hon yn cwrdd â Hwn.
Pobl yn edrych ar Hwn,
Pennau'n ysgwyd ar Hwn,
Torfeydd yn gwahanu i Hwn.
A hon yn dilyn Hwn,
Yn cyffwrdd y defnydd ar daen am Hwn
A thegwch, caredigrwydd …
Y gwaed wedi mynd
Gyda dim ond adlais o gyfiawnder Hwn.

Ac yna i Hwn, mae'n goch ei liw.
Gwaed ydyw,
Yn dod o Hwn, gwendid, poen, ynysu, dryllio
Dy enw,
Dy hanes yn iach eto.
Ac fe ddaeth trwy'r coch.
Ac fe ddaeth trwy'r gwaed.

*Abigail Orr*
*(Cyf. HP-D)*

# Undeb Sir Benfro 2024, 23–6 Mehefin: cyfle olaf i gofrestru

Rydym ni'n edrych ymlaen yn llawn cyffro at bedwar diwrnod o gymdeithas, mawl, ac ystyried y thema 'Adeiladaf fy Eglwys' gyda'n gilydd yng nghynhadledd Undeb Sir Benfro 2024.


A fyddwch mor garedig â chadarnhau eich lle ar gyfer cyfarfodydd yr Undeb cyn gynted ag y bo modd, ond erbyn diwedd yr wythnos gyntaf ym mis Mehefin, drwy anfon eich ffurflenni cofrestru at w.thomas1012@btinternet.com.

**Noson o dan y Seren**

Nos Lun, 24 Mehefin, yn ystod y gynhadledd, bydd noson genhadol arbennig yn cael ei chynnal – Noson o dan y Seren. Edrychwn ymlaen at glywed tystiolaeth pedwar person am eu taith yn dod i ffydd yn Iesu Grist. Bydd cyfle hefyd i fwynhau barbeciw a cherddoriaeth gan fand lleol. Cost y noson fydd £10.

Mae tocynnnau'n cael eu gwerthu o flaen llaw er mwyn cael syniad o'r niferoedd.

Cysylltwch â Geraint Morse os ydych yn dymuno cael tocynnau: morsegeraint@hotmail.com neu 07805 617555.



# Diolch dau am gael gwasanaethu am 60 mlynedd

**Robert F. Capon, Benllech**
(o lythyr ganddo a ddarllenwyd yng Nghymdeithasfa EBC yn y Gogledd ym Mangor)

Caniatewch i mi gydnabod yn gyntaf fy nyled drom i Gyfundeb a fu mor drylwyr ei ofal ohonof, ac mor gefnogol a chynhaliol yn ystod blynyddoedd cynnar y daith hir.

Braint uwch pris oedd fy magwraeth yn y gynhysgaeth Gristnogol Gymraeg a phrofi'r deffroad i'r 'Alwad' dan ddylanwad pregethu coeth ac eneiniedig y Parchedig D. R. Pritchard, Dwyran, gynt.

Gwŷr doeth yr enwad a agorodd imi ddrysau'r colegau: coleg hyfforddi darpar-weinidogion y Cyfundeb yn Aberystwyth, a dwy brifysgol – dyma gyfnod pwysicaf a mwyaf breintiedig fy mywyd.

Gallaf ddweud gyda T. H. Parry-Williams, yn ei gerdd, 'I'm Hynafiaid':

> A dyma pam, gan gymaint a roed im,
> Nad ydwyf yn dyheu am odid ddim.

Cefais bulpud a chynulleidfa; profais groeso a chefnogaeth eglwysi'r Cyfundeb, a mwynheais gymdeithas cyffeillion hoff y blynyddoedd. Maent hwythau – y rhai sydd ar ôl – yn parhau I felysu a chyfoethogi fy mywyd. Y mae fy nghwpan yn llawn. Derbyniais yn helaelth, ond ni allaf honni i mi roi yn helaeth yn ôl. Gadawaf y farn honno i eraill.

Daeth y nos annedwydd, hir, i orchuddio bywyd Cymru. Llafuriwn yn y gobaith bod gan Arglwydd y Cynhaeaf Mawr ryw waith sydd eto ar ôl i'w gyflawni ym mywyd ein pobl, ac y caiff Eglwys Bresbyteraidd Cymru ran yn y gwaith hwnnw o ddwyn cenedl, yr ymdrafferthodd Duw gymaint â hi, i gyffesu'r Duw a'i creodd i'w fwriad ei hun.



**John Owen, Rhuthun**
(o ymateb a draddodwyd yng Nghymdeithasfa EBC yn y Gogledd ym Mangor)

Ga' i yn gynta ddiolch fy mod i yma. A dwi'n cael fy nhemtio i ddyfynnu *comedian* oedrannus yn cyfarch ei gynulleidfa: "Rydw i'n falch mod i yma! Yn fy oed i, dach chi'n falch o fod yn rhywle." Ond, o ddifri, rydw i'n falch iawn o fod yma heddiw. Oherwydd dim ond dau ohonon ni o'r wyth a gafodd eu hordeinio yn Llanrwst 60 mlynedd yn ôl sydd yn aros – Bobby Capon a finna. Roedd 'na dri ohonon ni o Fôn; y diweddar Dewi Williams oedd y trydydd. A'r gair 'diolch' sydd yn weddus i mi heddiw. Mewn cyfarfodydd yng Nghymru ceir y diolchiadau ychydig cyn y diwedd, ac rwy'n gobeithio heddiw dalu'r diolchiadau ychydig go lew cyn y diwedd – gobeithio wir!

Diolch yn gyntaf am gyfarchion y Sasiwn, a hynny yn yr Henaduriaeth lle dechreuodd fy ngweinidogaeth. Rwy'n wirioneddol ddiolchgar i'r ofalaeth yn Nyffryn Peris lle cefais brofiad o'r gymdeithas chwarelyddol ac ansefydlog gan fod y chwarel ar y pryd â'i dyfodol yn gwegian. Fe ddaeth i ben fel y digwyddodd hi yn fy nghyfnod i. Ac rydw i yr un mor ddiolchgar i'r ofalaeth yn Nyffryn Clwyd lle cefais brofiad o fywyd trefol a gwledig mewn bro amaethyddol a chymdeithas fwy sefydlog. Ond fyddai'r profiadau cyfoethog yn y naill le na'r llall ddim yn bosib oni bai am fy magwraeth yn eglwys wledig Tŷ Mawr, Capel Coch, a chefnogaeth Henaduriaeth Môn. A faswn i ddim wedi cael y fagwraeth honno oni bai am yr aelwyd y cefais fy magu arni yn Nhŷ'n Coed, Tregaian.

Fy newis i oedd penderfynu mynd i'r weinidogaeth. Ond mae'n debyg fod sawl dylanwad ar y dewis hwnnw. Roedd Nhad yn flaenor a Mam yn croesawu gweinidogion i ginio, te neu swper yn gyson. Byddwn hefyd yn fy arddegau hwyr yn cael gwahoddiad i gadw cwmni i weinidogion oedd yn cael croeso gan Mrs Jones, Tŵr Celyn, oedd yn lletya gweindogion yn rheolaidd. Roedd 'na nifer o gefndryd fy mam yn weinidogion gyda'r Bedyddwyr ac un ewythr hefyd. Onid oedd y Parch. Hugh Williams, Rhuddlan, wedi'i fagu drws nesa? A fo wnaeth fy nerbyn yn gyflawn aelod. A dau ifanc, ond rai blynyddoedd yn hŷn na fi, oedd â'u hwynebau ar y weinidogaeth, dau oedd yn gyfeillion coleg, Meirion Lloyd Davies a Wil Huw Pritchard, oedd hefyd yn perthyn i mi – fy Yncl Wil.

Ar ôl bod yn naw oed, chefais i mo'r profiad o gael gweinidog nes oeddwn i'n ddeunaw oed. Y Parch. John Llywelyn Williams oedd y gweinidog hwnnw, ffrind mawr i'r teulu. Y Parch. Ffestin Williams yn ei gyfnod byr fel gweinidog arnon ni yn Nhŷ Mawr fu'n gyfrwng i'm bugeilio'n ofalus i fod yn ymgeisydd am y weinidogaeth. Am bum mlynedd, tra oeddwn i yn y coleg, doedd gen i ddim gweinidog. Ond roedd Rhiannon Lewis, merch i ficer wedi ymddeol o Langefni, yn drefnydd SCM, Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr, ac mi fu hi fel gweinidog i mi gan imi fedru rhannu a thrafod cwestiynau oedd yn poeni rhywun ar y pryd. A thrwyddi hi cefais fynychu cynhadleddau'r SCM yng Nghymru, yn Lloegr a thramor. Cefais yr un gefnogaeth a chyfeillgarwch gan ei holynydd, y Parch. Alwyn R. Jones, ddaeth yn Archesgob Cymru yn ddiweddarach. Ond cyn i mi orffen yn y coleg fe gafodd Tŷ Mawr weinidog annwyl iawn, R. P. Williams, o Ben Llŷn yn wreiddiol. Fo oedd y gweinidog pan gefais f'ordeinio yn Llanrwst. Roedd wrth ei fodd yn cael trafodaethau diwinyddol.

Rwy'n ddiolchgar i'r rhai fu'n athrawon arna i: athrawon ysgol Sul, ysgol ddyddiol a choleg, ac am gyfeillgarwch cyfoedion – hen a newydd – ar hyd y daith, gan ehangu fy ngorwelion bob cam o'r ffordd.

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Diolch dau am gael gwasanaethu am 60 mlynedd*
*(parhad o dudalen 4)*

Ond rwy'n hynod ddiolchgar, wrth gwrs, i Ann a Gwenda, gwragedd arbennig iawn a fu'n gymorth hynod o ysbrydoledig yn fy ngweinidogaeth yn eu ffyrdd gwahanol. Mae fy niolch i'r Cyfundeb am fy nghynnal ac am estyn i mi sawl braint ac anrhydedd a gweld yn dda, yn gam neu'n gymwys, i ymddiried sawl cyfrifoldeb i mi dros y blynyddoedd. Yn sicr, fe gyfoethogwyd fy mywyd drwy'r cyfan.



O'r chwith i'r dde: R. Owen Jones (Llundain), Dennis Green (Pontrhythallt), Ronald Wyn Roberts (Cefn-y-waen), W. E. Lloyd Williams (Aber-erch), G. E. Hughes (Aber-soch), Y Parch. J. H. Griffith (Llywydd y Sasiwn), Y Parch. Arthur Hughes (Ysgrifennydd), R. F. Capon (Caergybi), John Owen (Tŷ Mawr), a Dewi Wyn Williams (Caergybi) (Llun: *Y Cymro*)

Oes, mae 'na newid ac mae 'na ddirywiad. Ers y chwedegau mae wedi bod yn gyfnod heriol, yn peri i ni ofyn cwestiynau'n barhaus. Aeth ein ffydd drwy'r felin yn llythrennol, ac erys felly. Mae John Davies yr hanesydd wedi disgrifio'r hyn sy'n digwydd i'n capeli a'n heglwysi fel hyn: 'Dydyn ni'r Cymry ddim wedi gwrthryfela fel y gwnaeth dwyrain Ewrop wrth gofleidio comiwnyddiaeth, ond rydyn ni'r Cymry yn gadael i'n daliadau a'n sefydliadau Cristnogol lithro drwy ein dwylo.'

Dau wirionedd sydd yn fy helpu i wynebu hyn oll. Y cyntaf ydy'r ffaith fod Teyrnas Dduw yn ehangach nag aelodaeth eglwysig a bywyd eglwysig. Yr ail yw'r angen eto am dystiolaeth yr eglwys sy'n hanfodol, wrth gwrs. Ac fe ymddengys i mi mai tasg yr eglwys yn fwy nag erioed yw bod yn furum yn y blawd, yn weddill ffyddlon. Mae geiriau'r hanesydd Herbert Butterfield wrth gloi ei gyfrol sy'n trafod hanes Cristnogaeth (*Christianity and History*, 1949) yn eiriau doeth, i'm tyb i: 'Glynwch wrth Grist, ond fel arall byddwch gwbwl agored.'

Diolch eto am y cyfle yma i ddiolch.

Dilynwch y ddolen hon i dudalen Facebook EBC i weld fideo o John yn ymateb ar ôl ei longyfarch

# 'Gofalu am Erw Duw', 8–16 Mehefin 2024

A ROCHA UK Caring for God's Earth


Mae'r wythnos hon yn gyfle i ganolbwyntio ar y bywyd gwyllt anhygoel sydd o fewn ein mynwentydd a'n gerddi fel capeli ac eglwysi (ac unrhyw ddarn o dir arall sydd gennych o ran hynny). Mae'n brosiect blynyddol ar y cyd rhwng Caring for God's Acre, A Rocha UK, Yr Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Loegr. Y bwriad yn ystod yr wythnos yw annog aelodau o'n heglwysi i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud â byd natur.

Mae'r gweithgarwch hwn yn agored i eglwysi pob enwad, ac felly gofynnwn i chi annog eich aelodau i gymryd rhan. Gall hwn fod yn gyfle gwych i wahodd pobl o'r gymuned leol i mewn i'n heiddo – pobl nad ydynt yn dod ar gyfyl y capel a'r eglwys fel arfer. Rydym eleni yn edrych am fwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau yng Nghymru.

**Adnoddau**
Mae'r wybodaeth a'r adnoddau i gyd ar wefan www.caringforgodsacre.org.uk ac yn cynnwys syniadau am ddigwyddiadau, taflenni gweithgareddau, asesiadau risg, logos a deunyddiau gyda'r brandio (Cymraeg hefyd) a llawer mwy. Fe all y gweithgarwch fod yn daith natur, tacluso, arddangosfeydd neu adeiladu cartrefi i fywyd gwyllt (bocsys adar, neu dai i ddraenogod ac ati). Gall eglwys unigol ei gynnal neu gellir cydweithio gyda grŵp natur lleol, e.e. ymddiriedolaeth natur leol. Gellir cofrestru yn rhad am ddim ar y wefan uchod.

Byddai'n hyfryd clywed yr hanes gan yr eglwysi am y gweithgareddau a gynhaliwyd ganddynt.

*Delyth Higgins*
*Swyddog Cymru A Rocha*



# Croeso Cymru

‘Paid â gwneud cam â’r estron.’ (Exodus 23:9)

Noswyl y dydd olaf o fis Ebrill derbyniodd un o’r ceiswyr lloches sy’n byw yn Arfon wŷs i fynd i swyddfa’r heddlu trannoeth. Wyddai o ddim beth fyddai ei dynged. Roedd o eisoes yn cysylltu’n rheolaidd gyda’r Swyddfa Gartref ond doedd e erioed wedi gorfod cysylltu gyda’r heddlu o’r blaen.

Y bore hwnnw cipiwyd rhai tebyg iddo o bob rhan o Brydain i’r ddalfa yn barod ar gyfer eu hallforio i Rwanda. Ffilmiwyd llawer o’r cyrch hwn a’i ddarlledu’n gyhoeddus i brofi bod y llywodraeth o ddifri. Doedd gan hynny ddim i’w wneud â’r etholiadau lleol oedd yn digwydd y dydd Iau canlynol, mae’n debyg.

‘Peidiwch ag anghofio lletygarwch oherwydd trwyddo y mae rhai, heb wybod hynny, wedi rhoi llety i angylion.’ (Hebreaid13:2)

Cristion o argyhoeddiad ydi’r gŵr dan sylw, Cristion sydd wedi ffoi o wlad Fwslimaidd gaethiwus lle mae pob crefydd ar wahân i un gangen o Islam wedi eu gwahardd.

Ymgasglodd tua phymtheg o bobl sy’n perthyn i grwpiau cefnogi lleol y tu allan i swyddfa’r heddlu, rhai yn dod o’u gwaith, i ddangos eu cefnogaeth. Bu’r Aelod Seneddol Hywel Williams yn ceisio holi’r Swyddfa Gartref a chodi cwestiynau.

Wrth gwrs, roedd y ceisiwr lloches wedi dychryn am ei fywyd. Doedd o ddim am i neb dynnu ei lun rhag i’r awdurdodau gartref ddial ar ei deulu agos. Yn ffodus, am y tro, cafodd ei ryddhau ond am ba hyd does neb yn gwybod. Mae llawer o’r ceiswyr lloches hyn yn bobl fregus, amryw ohonynt heb lawer o Saesneg, yn unig iawn ac yn byw mewn ofn.

Mae’r grwpiau cefnogol yn cyfarfod gyda nhw’n wythnosol i sgwrsio, i chwarae gemau ac i drefnu gweithgareddau. Maen nhw hefyd yn codi arian iddyn nhw gael mynediad i gampfa neu’n prynu beiciau fel eu bod yn cael cyfle i ymarfer a bod yn yr awyr iach. Codwyd swm sylweddol yn ddiweddar mewn cyngherddau Cymraeg a drefnwyd gan y mudiad ‘Pobl i Bobl’ yn Pontio.

‘Bûm yn noeth a rhoesoch ddillad amdanaf’ (Mathew 25:35).

Eglwys Emaus ym Mangor ydi’r man cyfarfod a lle mae’r cyfarpar yn cael ei storio. Diolch iddynt. Ond mae aelodau’r grwpiau yn dod o bob cefndir diwylliannol ac ieithyddol. Mae llawer (y mwyafrif efallai) yn ddi-ffydd. Ond feiddiai neb ddweud nad ydyn nhw’n cyflawni Gwaith y Deyrnas – neu beth bynnag y dymunech ei alw.

Pan ddaeth y gŵr allan o swyddfa’r heddlu a mynd i sgwrsio gyda’r cefnogwyr, gafaelodd un yn dynn yn ei law i’w gysuro. Onid oedd honno yn ‘weithred brydferth’ ym mhob ystyr i’r gair?

‘Paid cam drin mewnfudwyr sy’n byw yn eich plith chi. Dylet ti eu trin nhw a dy bobl dy hun yr un fath.’ (Lefiticus 19:6)

Mae llyfr Lefiticus yn llawn gorchmynion rhyfedd ac ofnadwy. Ond wrth ymbalfalu i ddiffinio beth oedd y gwerthoedd gwaraidd priodol i’r genedl ymlynu wrthynt, mae’r gorchymyn hwn yn rhedeg fel llinyn arian trwy’r Hen Destament hyd at y Testament Newydd. Ac mae’n fwy perthnasol heddiw nag erioed.

*Alun Ffred*

*Gyda diolch i wefan Cristnogaeth 21*

**I’w drafod:**

Ym mha ffyrdd y gallwn ni roi croeso i’r dieithr yn ein heglwysi Cymraeg neu fel cymuned eglwysig?

Sut mae ein profiad fel Cymry Cymraeg yn gallu ein helpu ninnau i gydymdeimlo â’r rhai sy’n cael eu gorthrymu?

**Gweddi dros Ffoaduriaid**

O Dduw cariadus a thrugarog,
Rydym yn erfyn dros y rhai sydd wedi gorfod gadael eu cartrefi, oherwydd rhyfel, erledigaeth a thlodi.
Yn eu hofn ac ansicrwydd, bydded dy gysur yn eu calonnau.
Boed iddynt ddod o hyd i groeso a lloches,
A gobaith am ddyfodol gwell.
Amen.

Cofiwn am yr Wythnos Ffoaduriaid a gynhelir rhwng Mehefin 17eg a’r 23ain. Gellir dod o hyd i wybodaeth, adnoddau a syniadau (Saesneg) ar eu gwefan: www.refugeeweek.org.uk

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 2 Mehefin, am 7.30yh**
Wythnos y Gwirfoddolwyr
Ymunwch â Nia Roberts yng Ngheinewydd i gwrdd ag un o’r criwiau bad achub sy’n arbed bywydau ar y môr, a’r fyddin fechan o wirfoddolwyr sydd wrthi’n ddiwyd yn cadw ein traethau’n lân a diogel. Cawn fwynhau canu mawl o bob rhan o Gymru.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 2 Mehefin, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Jim Clarke

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 2 Mehefin, am 12yp**
Oedfa dan ofal Wyn Maskell, Bro Aeron Mydr

# Ymddiriedolaeth Trussell yn cyhoeddi ei faniffesto ei hun ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2024

Fe ddyblodd y galw am becynnau bwyd brys gan rwydwaith banciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Rhannwyd mwy o becynnau nag erioed yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl adroddiad gan yr elusen.

Dangosodd ffigurau diweddaraf yr elusen, a ryddhawyd ddechrau Mai, fod eu banciau bwyd ar draws y Deyrnas Unedig wedi dosbarthu 3.1 miliwn o barseli bwyd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, 1.1. miliwn o'r rheiny i blant. Aeth tua 65% o'r cymorth i deuluoedd â phlant.

Bu cynnydd o 94% yn y galw am y gwasanaeth ers 2019, gyda chynnydd o 4% ers y llynedd yn unig. Galwodd Emma Rieve, Prif Weithredwraig Ymddiriedolaeth Trussell, ar i arweinyddion gwleidyddol gyhoeddi eu polisïau wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer etholiad cyffredinol er mwyn sicrhau na fydd angen defnyddio banciau bwyd yn y Deyrnas Unedig.

Dywedodd Emma: "Mae'n 2024, ac rydym yn wynebu'r angen mwyaf erioed am fanciau bwyd. Wrth i ni agosáu at etholiad cyffredinol nesaf y Deyrnas Unedig, mae angen i ni glywed ar frys sut y bydd y pleidiau'n adeiladu dyfodol lle na fydd angen banc bwyd ar unrhyw un i oroesi. Mae'n hanfodol fod ein system nawdd cymdeithasol, nad yw'n darparu digon o gymorth i bobl allu fforddio'r hanfodion hyd yn oed ar hyn o bryd, yn cael ei diwygio ar frys. Byddai cyflwyno 'Gwarant Hanfodion' ar gyfer Credyd Cynhwysol yn sicrhau bod pawb yn cael sicrwydd o isafswm cymorth i allu fforddio'r hanfodion.

"Nid banciau bwyd yw'r ateb. Byddan nhw yno i gefnogi pobl cyhyd ag y bydd eu hangen, ond mae'n rhaid i'n harweinwyr gwleidyddol gymryd camau dewr er mwyn adeiladu dyfodol lle mae gan bawb ddigon o fodd i brynu angenrheidiau bywyd."

Gellir darllen dogfen faniffesto Gymraeg yr ymddiriedolaeth o ddilyn y ddolen isod. Ynddi maent yn nodi'r blociau adeiladu ar gyfer rhoi diwedd ar yr angen am fanciau bwyd:

[Maniffesto etholiad cyffredinol 2024 cymraeg.pdf (trusselltrust.org)]






# 'Ai am fy meiau i' – myfyrdod ar emyn John Elias o Fôn (a aned 250 o flynyddoedd yn ôl)

Ai am fy meiau i
dioddefodd Iesu mawr
pan ddaeth yng ngrym ei gariad ef
o entrych nef i lawr?

Cyflawnai'r gyfraith bur,
cyfiawnder gafodd lawn,
a'r ddyled fawr, er cymaint oedd,
a dalodd ef yn llawn.

Dioddefodd angau loes
yn ufudd ar y bryn,
a'i waed a ylch y galon ddu
yn lân fel eira gwyn.

Bu'n angau i'n hangau ni
wrth farw ar y pren,
a thrwy el waed y dygir llu,
drwy angau, i'r nefoedd wen.

Pan grymodd ef ei ben
wrth farw yn ein lle,
agorodd ffordd, pan rwygai'r llen,
i bur drigfannau'r ne'.

Gorchfygodd uffern ddu,
gwnaeth ben y sarff yn friw;
o'r carchar caeth y dygir llu,
drwy ras, i deulu Duw.

JOHN ELIAS, 1774–1841
(*Caneuon Ffydd*, 482)

**Myfyrdod**
Rhyfeddod sydd wrth wraidd y cwestiwn yn yr emyn hwn – un o rai enwocaf John Elias o Fôn. Defnyddio cwestiwn ei forwyn Mary a wnaeth John Elias. "Ai am fy meiau i y dioddefodd Iesu mawr?" holodd un bore ar ôl i'w meistr fod yn cadw dyletswydd deuluol a darllen Eseia 53. Mae yna enghraifft yma o sut y gall yr Ysgrythur siarad â chalon yr unigolyn a'i chymhwyso'i hun i'n sefyllfa ni: 'Ond fe archollwyd ef am ein troseddau ni, a'i ddryllio am ein camweddau ni; roedd pris ein heddwch ni arno ef, a thrwy ei gleisiau ef y cawsom ni iachâd', meddai'r bumed adnod o'r bennod. Wyddom ni ddim beth oedd yn pwyso ar feddwl Mary, beth oedd y 'beiau' oedd yn ei chyhuddo wrthi ei hun, ond mae yna draddodiad bod gan deulu John Elias forwyn a arferai fod yn un o'r 'copper ladies' yng ngwaith Mynydd Parys ac yn un lac iawn ei moesau, ond a drodd yn rhyfeddol at Grist ac a olchwyd yn lân 'fel eira gwyn'. Os mai hon oedd Mary, yna roedd hi eisoes wedi cael ateb i'w chwestiwn, ond yn parhau i synnu bod y fath waredigaeth yn bosibl.

Darllen o'r bennod fawr hon (Eseia 53) sydd yn llawn o Newyddion Da'r Testament Newydd oedd yr eunuch hwnnw oedd ar ei ffordd yn ôl at ei frenhines yn Ethiopia yn Actau 8 pan ddanfonwyd Philip gan yr Ysbryd Glân at ei gerbyd gan esbonio'i benbleth iddo a'i arwain at wrthrych y bennod, Iesu Grist, 'Oen Duw sy'n cymryd ymaith bechod y byd' (Ioan 1:29). Bedyddiwyd yr eunuch o Ethiopia yn y fan a'r lle pan ddaeth i gredu'r Newyddion Da am Iesu Grist, a chyfeiriad at hynny a arferai fod yn y trydydd pennill: 'a ylch yr Ethiop du', ond bellach a aeth yn 'galon ddu' yn *Caneuon Ffydd*.

Datguddir calon fawr Duw ei hun tuag atom yn yr emyn, ond allwn ni ddim profi 'grym ei gariad ef' nes down i sylweddoli, fel Mary, ein bod, nid yn unig wedi torri 'cyfraith bur' Duw, ond hefyd ei galon. Does dim rhaid inni ofni agor yr hyn sydd yn ein calonnau ni i'r galon ddwyfol oherwydd 'agorodd (Iesu) ffordd, pan rwygai'r llen, i bur drigfannau'r ne'. Daeth i'r byd i'r union bwrpas hwnnw, i faddau beiau ac i'n dwyn ninnau 'drwy ras, i deulu Duw'.

**Gweddi**
O Dad, oes yna unrhyw beth cyn hardded â'r gras sydd yn maddau beiau? Gofynnaf innau fy nghwestiwn i ti, ac ni wn i am ddim arall all dalu'r ddyled fawr, er cymaint oedd, a gwneud hynny yn llawn. Helpa fi i'w dderbyn – am nad oes ateb arall i bechod. Yn enw Iesu rwy'n gofyn. Amen.

(Allan o *Emynau'r Ffydd*, Huw Powell-Davies, 2004)

# ETHOLIAD CYFFREDINOL 2024

Bellach gyda dyddiad yr Etholiad Cyffredinol Prydeinig wedi ei bennu ar Gorffennaf 4ydd, fe welwn fod eglwysi a mudiadau Cristnogol ar draws y Deyrnas Unedig yn paratoi ar gyfer sicrhau llais Cristnogol yn ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol,

Bydd deunydd dwyieithog wedi'i addasu ar gyfer Cymru ar gael ar wefan Cytûn – https://www.cytun.co.uk/etholiad-2024/ (a bydd dolen o dudalen flaen y wefan hefyd). Yno eisoes mae gwybodaeth am y rheolau newydd ynghylch darparu dogfennau adnabod er mwyn pleidleisio, a chanllaw manwl ar drefnu cyfarfod gyda'r ymgeiswyr yn eich etholaeth – boed mewn cyfarfod cyhoeddus traddodiadol, ar lein, neu mewn nifer o fformatau mwy rhyngweithiol. Anogir grwpiau Cytûn lleol a grwpiau eraill o eglwysi i gydweithio i drefnu'r cyfarfodydd hyn, all gyfrannu llawer at drafodaeth gytbwys yn ystod yr ymgyrch.

Bwriedir ychwanegu papurau briffio am feysydd polisi gan rai o'n haelod eglwysi, a hefyd ddolenni i wefannau eglwysi a mudiadau eraill all fod yn ddefnyddiol, felly dychwelwch yn rheolaidd i'r wefan i weld beth sy'n newydd yno. Mae ein cydweithwyr yn Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon yn trefnu gwefan debyg, gyda deunydd o bob rhan o'r Deyrnas Unedig (yn Saesneg yn unig) – https://www.churcheselection.org.uk/

Ymhlith aelod eglwysi Cytûn sydd eisoes wedi dechrau cyhoeddi eu deunydd eu hunain ar gyfer yr etholiad mae Cymdeithas y Cyfeillion a thîm materion cyhoeddus yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig ac Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr. Mae rhai o'n haelod enwadau a mudiadau yn aelodau o glymbleidiau ehangach megis Let's End Poverty, sy'n ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth o dlodi gartref a thramor yn ystod cyfnod yr etholiad.

(Allan o Fwletin Polisi Cytûn, Mehefin/Gorffennaf 2024)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru